

**CYNGOR CYMUNED TREWALCHMAI COMMUNITY COUNCIL
CYFARFOD / MEETING 3/11/2014**

PRESENNOL: Cadeirydd Mrs S Jones, Mrs C Lloyd, Mrs E Jones, Ms M Williams, Ms M E Evans, Mrs S Roberts, Mr G Williams, Mr R G Parry, Mr B Veevers a PCSO Marcia Hughes.

PRESENT: Chairman Mrs S Jones, Mrs C Lloyd, Mrs E Jones, Ms M Williams, Ms M E Evans, Mrs S Roberts, Mr G Williams, Mr R G Parry, Mr B Veevers and PCSO Marcia Hughes.

YMDDIHEURIADAU: Derbyniwyd ymddiheuriad am ei habsenoldeb o ganlyniad i brofedigaeth yn y teulu oddi wrth Mrs H Williams. Estynnwyd cydymdeimlad y Cyngor at Mrs Williams.

APOLOGIES: Due to a bereavement in the family, an apology for her absence was received from Mrs H Williams. The Council expressed its condolences to Mrs Williams.

MATERION YN CODI:

1. Prosiect Tidy Towns. Dim symud ymlaen wedi digwydd ar y prosiect.

2. Cloc y Pentref. Gwaith wedi ei ddechrau ar y cloc, ond yn annhebyg o gael ei orffen erbyn Sul y Coffa. Penderfynwyd cael amcan bris o'r gost i roi trydan i'r cloc ar gyfer rhoi golau ar y 4 wyneb. Gofynnwyd i'r Clerc lenwi'r ffurflen gais a'i hanfon at Scottish Power cyn gynted â phosib. Derbyniwyd tri chyfraniad arall at brosiect y cloc sef £400.00 gan Hogan Construction; £20 gan Ifan Evans, Castell; £40 gan Mrs Christine Edwards.

3. Sul y Coffa. Y Llu Awyr a'r Heddlu wedi derbyn y gwahoddiad, a'r Parch Emyr Rowlands yn fodlon cynnal y gwasanaeth bob blwyddyn. Y Cyngor Cymuned i dalu ffi Mr Rowlands. (£25). Mr Thomas wedi gwirfoddoli i ganu'r corn yn y gwasanaeth, a phrifathro Ysgol y Ffridd wedi cytuno i'r plant gymryd rhan yn y gwasanaeth o amgylch y cloc.

4. Arwyddion Ffordd Gwalchmai Uchaf. Y Cyngorydd R G Parry dal i ddisgwyl am ymateb o'r Cyngor Sir.

MATTERS ARISING:

1. Tidy Towns Project. No progress made with the project.

2. Village Clock. Work on the clock had commenced but unlikely to be completed in time for Remembrance Sunday. It was decided to seek an estimated to have electricity installed in the clock with a view to having the four facies lit. The Clerk was requested to complete the application form and return it to Scottish Power as soon as possible. Three further donations towards the clock were received: £400 from Hogan Construction; £20 from Mr Ifan Evans, Castell; £40 from Mrs Christine Edwards.

3. Remembrance Sunday. The RAF and Police have accepted the invitation, and Rev. Emyr Rowlands happy to conduct the service annually. The Community Council to pay Mr Rowlands' fee of £25. Mr Thomas had volunteered to play the bugle in the service, and the Headmaster of Ysgol y Ffridd had agreed to the children taking part in the service by the clock.

4. Gwalchmai Uchaf Signposts. Councillor R G Parry still waiting a response from the County Council.

GOHEBIAETH:

1. Mr Wayne Francis, Tŷ Newydd. Y Clerc wedi derbyn e-bost oddi wrth Mr Francis yn cwyno am sbwriel yn cael ei daflu i'w ardd gan bobl yn disgwyl wrth y bus stop. Dywedodd y PCSO ei bod yn fodlon trafod y mater gyda Mr Francis. Dywedodd y Cynghorydd R G Parry bod y mater o osod biniau ger y bus stop wedi ei drafod yn y Cyngor Sir ond nad oedd hynny'n bosib gan i'r palmant fod yn rhy gul. Gofynnwyd i'r clercc gysylltu â Mr Francis i roi'r eglurhad iddo..

2. Cyfarfod Cyswllt Cynghorau Tref a Chymuned. Mrs Edna Jones a'r Clerc wedi mynychu'r cyfarfod a rhoddodd Mrs Jones adroddiad o'r cyfarfod i'r Cyngor. Cafwyd adroddiad hefyd gan y Cynghorydd R G Parry ar Ragolygon y Gyllideb.

3. Hyfforddiant i'r clerccod ar y Cod Ymddygiad. Y Clerc wedi mynychu'r hyfforddiant ac wedi ei gael yn ddefnyddiol iawn. Rhoddodd adroddiad ar y cynnwys i'r Cyngor.

4. Cyngor Sir Ynys Môn.

(a) Swyddog Recriwtio a Marchnata - Tim Lleoli Plant. Codi ymwybyddiaeth am Faethu. Er gwybodaeth.

(b) Swyddog Datblygu Chwarae Môn. Gwybodaeth am grant ar gael o "Groundwork" i ddatblygu tir ysgolion. Y Clerc wedi anfon yr e-bost ymlaen at Brifathro Ysgol y Ffridd. Gwybodaeth hefyd y bydd grant Cymunedau Lleol Comic Relief ar agor o'r 31/10./14 tan 5/12/14.

(c) Seminar Datblygu'r fersiwn Adnau o'r Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd 7/11/2014. Er gwybodaeth.

(d) Hwylusydd Tai Gwledig. Pobl sy'n Cysgu Allan - Cyfrif 2014. Er gwybodaeth.

CORRESPONDENCE:

1. Mr Wayne Francis, Tŷ Newydd. The Clerk had received an email from Mr Francis complaining about the rubbish being thrown into his garden by people waiting by the bus stop. The PCSO said she was happy to discuss the matter with Mr Francis. Councillor R G Parry said that the matter of placing bins by the bus stop had been discussed in the County Council but due to the narrowness of the pavement, this was not possible. The Clerk was requested to contact Mr Francis to pass on this information.

2. Town and Community Councils Liaison Meeting. Mrs Edna Jones and the Clerk had attended this meeting, and Mrs Jones gave a report to the Council on the content of the meeting. Councillor R G Parry also reported on the Budget Prospects.

3. Training for Clerks on the Code of Conduct. The Clerk had attended the meeting and had found it very useful. She gave a report on the content to the Council.

4. Isle of Anglesey County Council.

(a) Recruitment and Marketing Officer – Child Placement Team. Raising the awareness of Fostering. For information.

(b) Anglesey Play Development Officer. Information regarding grant available from "Groundwork" to develop School grounds. The Clerk had forwarded this on to the Headmaster of Ysgol y Ffridd. Information also that the Comic Relief Local Community Grant will be open between 31/10./14 and 5/12/14.

(c) Seminar Developing the Deposit version of the Joint Local Development Plan 7/11/2014. For information.

(d) Rural Housing Enabler. Rough Sleepers Count 2014. For information

(e) Penderfyniadau Cynllunio.
Caniatâd i gais llawn i godi sied amaethyddol i gadw anifeiliaid yn Pendref, Gwalchmai.

5. Aled Roberts Aelod Cynulliad dros Ogledd Cymru. Gwybodaeth fod Llywodraeth Cymru a'r Asiantaeth Cefnffyrdd yn cynnal adolygiad o'r terfynau cyflymder ar ein cefnffyrdd ac yn gofyn am sylwadau mewn perthynas â'r terfynau cyflymder ar y cefnffyrdd, Gofynnwyd i'r Clerc anfon yr awgrymiadau canlynol:
40 milltir yr awr o Tirionfa at Mona F & T a
40 milltir yr awr o Tan y Bonc at y mynediad y Chwarel.

6. Un Llais Cymru. Adroddiad diweddaraf cynrychiolydd Unllais Cymru ar y Grŵp Cyfeiriol Budd-ddeiliad. Er gwybodaeth.

7. Eisteddfod Genedlaethol Maldwyn a'r Gororau. Cais am gyfraniad. Penderfynu peidio cyfrannu.

ARIANNOL:

Anfonebau i law oddi wrth:

(a) D.E Parry - £730.00 am dorri'r llwybrau cyhoeddus am y flwyddyn 2014. Penderfynwyd cytuno â chais Mr Parry i barhau â'r gwaith am y flwyddyn 2015 am yr un pris.

(b) Cyngor Sir Ynys Môn - £289.17 rhent Cae Peldroed. Penderfynwyd peidio gofyn i'r Pwyllgor Peldroed am ad-daliad o'r rhent eleni.

(c) Hywel G Hughes - £60.00 cyfieithu ar y pryd yng nghyfarfod mis Gorffennaf.

(d) Cyflog a PAYE y Clerc am drydydd chwarter y flwyddyn ariannol hon. Penderfynwyd i'r Clerc dalu'r holl anfonebau.

UNRHYW FATER ARALL:

1. Prydles Hen Gae Chwarae Dafarn Groes. Y brydles yn dod i ben, a

(e) Planning Decisions. Permission granted for full application for the erection of an agricultural shed to house livestock at Pendref, Gwalchmai.

5. Aled Roberts Assembly Member for North Wales. Information that the Welsh Government and the Trunk Road Agency are currently undertaking a review of speed limits on trunk roads and requesting views and comments relating to speed limits on trunk roads. The Clerk was requested to forward the following suggestions:
40mph from Tirionfa to Mona F & T and 40mph from Tan y Bryn to the entrance to the Quarry.

6. One Voice Wales. Latest reports from the One Voice Wales representative on the Stakeholder Reference Group. For information.

7. Montgomeryshire and the Marches National Eisteddfod. Request for donation. It was decided not to donate.

FINANCIAL:

Invoices received from:

(a) D.E Parry - £730.00 for maintaining the public footpaths in 2014. It was decided to agree to Mr Parry's request to carry on with the work for the year 2015 at the same price.

(b) Isle of Anglesey County Council - £289.17 – rent for football field. It was decided not to request repayment of the rent from the football Committee this year.

(c) Hywel G Hughes - £60.00 for interpreting at the July meeting.

(d) Clerk's salary and PAYE for the third quarter of this financial year. It was decided that the Clerk pay all the invoices.

ANY OTHER MATTER:

1. Lease on the Old Playing Field at Dafarn Groes. The lease coming to an

phenderfynwyd adnewyddu'r les am gyfnod pellach o 11 mis i Mr W K Evans - y rhent fydd £100 am yr 11 mis.

2. Llwybr Bryntirion. Y gwrychyn wedi gordyfu ac angen ei dorri. Penderfynwyd gofyn i Mr D Parry dorri'r rhan o'r gwrychyn sy'n gordyfu i'r llwybr cyhoeddus cyn gynted â phosibl.

CYFARFOD NESAF: Cynhelir y cyfarfod nesaf nos Lun 5 Ionawr 2015 am 7pm

end, and it was decided to renew the lease for a further period of 11 months to Mr W K Evans at a rent of £100 for the eleven months.

2. Bryntirion footpath. The hedge had over-grown and was in need of cutting. It was decided to ask Mr D Parry to cut the part of the hedge that had over-grown onto the public footpath as soon as possible.

NEXT MEETING: The next meeting will be held on Monday 5 January 2015 at 7pm.